

Cyngor Celfyddydau Cymru

---

# Polisi er Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg

---


Mehefin 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn bolisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cefndir</b>	<b>4</b>
1.1	Safonau'r Gymraeg	4
1.2	Datganiad o egwyddor	4
<b>2</b>	<b>Ein cysylltiad â'r cyhoedd</b>	<b>5</b>
2.1	Gohebiaeth ysgrifenedig	5
2.2	Ateb y ffôn	5
2.3	Ffonio pobl	6
2.4	Cyfarfodydd, cyflwyniadau, seminarau	6
2.5	Cyhoeddiadau, brandio a hunaniaeth gyhoeddus	7
2.6	Cyhoeddusrwydd	8
2.7	Hysbysebion a hysbysiadau	8
<b>3</b>	<b>Gweithredu'r Cynllun</b>	<b>9</b>
3.1	Y Cyngor a'i aelodau	9
3.2	Staffio a recriwtio	9
3.3	Ymroddiadau fîm	10
3.4	Cyflwyno, hyfforddi a datblygu staff	11
3.5	Cyfieithu	12
<b>4</b>	<b>Gwasanaethau a ddarperir gan eraill</b>	<b>13</b>
4.1	Gweithio gyda chleientiaid	13
4.2	Gweithio â sefydliadau partner	14
4.3	Grantiau a chontractau	15
<b>5</b>	<b>Monitro ac adrodd</b>	<b>16</b>
5.1	Monitro	16
5.2	Adrodd	16
5.3	Ymwybyddiaeth o'r polisi a'r cynllun gweithredu	17

# 1 Cefndir

- 1.1 Esbonia Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sut y disgwylir i gyrff cyhoeddus Cymru ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynnal eu busnes a darparu eu gwasanaethau.
- 1.2 Glynna Cyngor Celfyddydau Cymru wrth yr egwyddor hon: triniwn y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal ein busnes.

Cydnabyddwn bwysigrwydd darparu gwasanaeth hollol ddwyieithog i artistiaid a'r cyhoedd. Ac rydym am i bobl ein hystyried yn rheng flaen polisi cyhoeddus Cymru. Yn ogystal â'n cyfrifoldebau sector cyhoeddus, hoffem fynd ymhellach. Yn benodol, cydnabyddwn bwysigrwydd creu datblygiadau uchelgeisiol a chreadigol a meithrin amgylchedd ar draws y celfyddydau a hyba ddefnydd a thwf y Gymraeg. Hoffem i bobl Cymru ein barnu ar ansawdd ein gwasanaeth ac effeithiolrwydd ein canlyniadau ac ystyried y rhain yn bluen yng nghap y genedl.

## 2 Ein cysylltiad â'r cyhoedd

### 2.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

- 2.1.1 Mae croeso i artistiaid, sefydliadau celfyddydol ac aelodau o'r cyhoedd ohebu â ni yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis. Caiff llythyrau Cymraeg ateb Cymraeg â llofnod yr anfonwr. Atebwn bob gohebiaeth, boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl yr un amserlen.
- 2.1.2 Gohebwn ag unrhyw un a ysgrifennodd atom yn y Gymraeg (neu a fynegodd ddymuniad i gynnal ei fusnes â ni yn yr iaith honno) yn Gymraeg yn y dyfodol. Cadwn gofnod o ddewis iaith ein gohebwy'r rheolaidd.  
  
Bydd gohebiaeth yn sgil sgwrs ffôn neu gyfarfod wyneb yn wyneb hefyd yn y Gymraeg heblaw bod y person wedi gofyn fel arall.
- 2.1.3 Bydd ein cylchlythyrau a'n llythyrau safonol yn ddwyieithog.
- 2.1.4 Pan ddaw llythyr byr yn Gymraeg at aelod o'r staff di-Gymraeg, trefna hwnnw i aelod dwyieithog o'r staff ei gyfieithu. Cynhelir rhestr o'r staff a gynnig y gwasanaeth hwn a bydd y rhestr ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd.
- 2.1.5 Ond anfonir gohebiaeth hir neu gymhleth at ein Cyfieithydd mewnol neu yn ei absenoldeb, at wasanaeth cyfieithu allanol.

### 2.2 Ateb y ffôn

- 2.2.1 Cyfloga'r Cyngor staff dwyieithog i ateb pob galwad i'n prif linellau ffôn.
- 2.2.2 Rhaid ateb pob galwad ffôn a ddaw o'r tu allan yn ddwyieithog a'i throsglwyddo i siaradwr Cymraeg i ddelio â hi os dyma ddymuniad y galwr. Mae sgript o gyfarchion dwyieithog yn adran Safonau'r Gymraeg ar Hwb.
- 2.2.3 Bydd neges ddwyieithog ar beiriannau ateb a bydd croeso i bobl adael neges yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd yr ateb i'r neges a adewir yn iaith y neges honno.
- 2.2.4 Ar gyfer rhifau ffôn unigol y gweithwyr y gellir ei deialu'n uniongyrchol, bydd y neges a recordir yn iaith y gweithiwr ond gyda chyfarchiad dwyieithog a ddaw'n gyntaf.

## 2.3 Ffonio pobl

Cofnodir dewis iaith yr holl dderbynwyr grant yn Gifts. I bob cysylltiad arall, ceidw'r fîm Cyfathrebu gofnod o'u dewis iaith. Mae'r cofnod hwn yn adran Safonau'r Gymraeg ar Hwb. Cyn ffonio rhywun allanol, edrychwch yn gyntaf yn y ddau le hyn i weld beth yw dewis iaith y person. Os nad oes cofnod yno, rhaid ichi ofyn beth yw dewis iaith y person a'i gofnodi yn Hwb at y dyfodol.

## 2.4 Cyfarfodydd, cyflwyniadau, seminarau

- 2.4.1 Os cynnal y Cyngor gyfarfod y gwahoddir y cyhoedd iddo, anogwn aelodau o'r cyhoedd i gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gwnawn hyn drwy wneud nifer o bethau gan gynnwys:
- nodi dewis iaith y mynychwyr wrth iddynt gofrestru
  - staff dwyieithog i groesawu'r cyhoedd
  - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd
  - pob deunydd cyflwyno'n hollol ddwyieithog.
- 2.4.2 Wrth gynnal cyfarfod i wahoddedigion (a ystyrir felly'n gyfarfod mewnol), rhoddir y mesurau yn 2.4.1 ar waith fel y bônt yn briodol. Bydd hyn yn wir i bob cyfarfod gan gynnwys rhai grantiau, tendrau a chyfweliadau.
- 2.4.3 Hysbysebwn bob cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog a sicrhawn fod staff dwyieithog yn bresennol i gyfarch pobl a chynnal y busnes yn newis iaith y mynychwr.
- 2.4.4 Darperir cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau trafod seminarau a chynadledau a drefnwn ac mae croeso i bob ymgyfranogwr ddefnyddio ei ddewis iaith.
- 2.4.5 Gall pobl sy'n galw yn unrhyw un o'n swyddfeydd drafod eu busnes yn Gymraeg neu Saesneg. Sicrhawn fod staff Cymraeg yn bresennol fel y gall galwyr a ddaw i mewn drafod eu busnes yn eu dewis iaith.
- 2.4.6 Mae croeso i bobl gyfathrebu â ni drwy negeseuon trydanol yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Eto, atebwn yn iaith y neges wreiddiol. Diweddarwyd strivedi llofnod e-bost y staff i annog defnydd y Gymraeg a nodi a yw'r aelod penodol o staff yn siarad Cymraeg.

## 2.5 Cyhoeddiadau, brandio a hunaniaeth gyhoeddus

- 2.5.1 Cyhoeddwn bob deunydd corfforaethol yn ddwyieithog – ar ein gwefan neu'n gopi caled.
- 2.5.2 Gyda deunydd lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, cyhoeddir y ddwy fersiwn yr un pryd. Dosberthir y ddwy yr un pryd, arddangosir y ddwy gyda'i gilydd a byddant ar gael i'r un graddau ac o'r un safon. Eithriad fydd cyhoeddi ar wahân ddeunyddiau corfforaethol yn y ddwy iaith ond pan wneir hyn, esbonnir ymhob fersiwn fod y fersiwn arall ar gael.
- 2.5.3 Pan godwn dâl am y ddogfen, ni chodwn ragor am fersiwn ddwyieithog nag y codwn am fersiwn uniaith. Pan gyhoeddwn fersiynau uniaith â phris, ni fydd pris y Gymraeg yn uwch na phris y Saesneg.
- 2.5.4 Argraffwn ein templedi, gan gynnwys anfonebau, yn ddwyieithog a'u hysgrifennu'n unol â'r meini prawf sydd yn adran 2.1 am ohebiaeth ysgrifenedig.
- 2.5.5 Rhoddwn ganllawiau ysgrifenedig i'n staff, ein hymgynghorwyr, ein technegwyr gwefan ein dylunwyr ac argraffwyr ein cyhoeddiadau dwyieithog am sut i ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog.
- 2.5.6 Pan gyhoeddir fersiynau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, tynnir sylw staff ac asiantau eraill sy'n ymwneud â dosbarthu'r deunydd at fodolaeth y ddwy fersiwn a'r angen i'w trin yn gyfartal.
- 2.5.7 Bydd pob ffurflen ceisio grant a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddwn at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynnwys pob deunydd ddatganiad sy'n croesawu cyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni fydd dewis iaith yn golygu oedi.
- 2.5.8 Pan gyhoeddwn fersiynau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, cyhoeddwn y deunydd esboniadol cysylltiedig yn yr un iaith. Cyhoeddir y ddwy fersiwn ar yr un pryd a bydd y ddwy ar gael i'r un graddau ym mhob un o swyddfydd y Cyngor ac mewn lleoedd dosbarthu eraill gan gynnwys ein gwefan. Bydd y naill fersiwn yn nodi bodolaeth y fersiwn arall.
- 2.5.9 Bydd y Cyngor yn arddel hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog, gan arddangos ei enw (a'i gyfeiriad lle bo'n briodol) yn ddwyieithog ar bob logo, pennawd papur ysgrifennu, memorandwm, papur ffacs, cerdyn busnes, bathodyn adnabod a deunydd a nwydd corfforaethol arall.

Arddengys y Cyngor ei enw'n ddwyieithog ar bob adeilad y mae'n ei feddiannu ac ar bob arwydd yn yr adeiladau hynny lle mae angen iaith i gyfleu gwybodaeth. Yn

yr un modd, yr un peth bydd fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y ddwy iaith ar yr holl ddeunyddiau, nwyddau ac arwyddion corfforaethol.

- 2.5.10 Cyhoeddwn ein holl ddeunyddiau ysgrifenedig neu drydanol at sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Ymhob achos bydd fformat, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y ddwy iaith yr un peth a thrinnir y ddwy iaith yn gyfartal.
- 2.5.11 Bydd pob arolwg a holiadur a gomisiynwn yn ddwyieithog a bydd y deunyddiau ategol yn ddwyieithog. Cynhelir unrhyw gyfweiliadau cysylltiedig yn newis iaith yr un y cyfwelir ag ef.

## **2.6 Cyhoeddusrwydd**

- 2.6.1 Fel rheol cyhoeddwn bob deunydd cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog, mewn ffordd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.
- 2.6.2 Trafodir y ddwy iaith yn gyfartal ymhob arddangosfa a drefnwn. Anogwn arddangoswyr sy'n defnyddio swyddfeydd, stondinau ac arddangosyddion y Cyngor i ddefnyddio'r ddwy iaith.

## **2.7 Hysbysebion a hysbysiadau**

- 2.7.1 Yn ein hysbysiadau cyhoeddus a'n hysbysebion recriwtio bydd y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd yn unol â'r Safonau a byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, bod yn ddarllenadwy ac amlygrwydd.
- 2.7.2 Cyhoeddwn hysbysiadau a datganiadau dwyieithog i'r wasg mewn modd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.
- 2.7.3 Darparwn siaradwyr ar gyfer cyfweiliadau yn y cyfryngau yn y Gymraeg a Saesneg.



## **3 Gweithredu'r Cynllun**

### **3.1 Y Cyngor a'i aelodau**

- 3.1.1 Trafoda a chymeradwya'r Cyngor ddiwygiadau rheolaidd i'r Polisi a'n Cynllun Gweithredu. Mae gan y Cyngor yr awdurdod i sicrhau gweithredu'r Safonau'n effeithiol yn fewnol ac mae'n ymroddedig i hyrwyddo'r ymarfer gorau yn allanol.
- 3.1.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau y cynhaliwn Grŵp Monitro'r Gymraeg. Sicrha'r Cyngor y bydd y Grŵp yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu'r Gymraeg ac Adroddiad Gweithredu'r Safonau. Ystyria'r Cyngor unrhyw argymhellion a wneir yn yr adroddiad neu ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn fel sy'n briodol.
- 3.1.3 Trafoda a chymeradwya Gynllun Gweithredu blynyddol i fonitro gweithredu Polisi a Safonau'r Gymraeg.
- 3.1.4 Bydd y Cyngor yn ymwybodol o ofynion statudol ac yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg pan fo angen.
- 3.1.5 Rhoddir copi o Bolisi a Chynllun Gweithredu'r Gymraeg i aelodau o'r Cyngor a briffiad am eu goblygiadau a ymgorfforir yn y weithdrefn sefydlu aelodau newydd o'r Cyngor ac ymgynghorwyr newydd.
- 3.1.6 Trin y Cyngor y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 3.1.7 Bydd gan aelodau o'r Cyngor wybodaeth sylfaenol o'r Gymraeg at ddibenion cyflawni eu dyletswyddau ar y Cyngor. Cynnwys hyn y gallu i ynganu'n gywir enwau, teitlau ac yn y blaen yn y Gymraeg.

### **3.2 Staffio a Recriwtio**

- 3.2.1 Sicrha'r Cyngor fod gan weithleoedd a gaiff gysylltiad â'r cyhoedd hygyrchedd i ddigon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth Cymraeg llawn. Adolygir hyn yn rheolaidd ac yn enwedig yn ystod adolygiadau sefydliadol.
- 3.2.2 Adolygwn yn rheolaidd y gweithleoedd a'r swyddi hynny lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol i nodi lefel y gallu a ddisgwylir ymhob achos. Llunnir disgrifiadau tîm a swydd yn ôl y canlyniadau. Trafodir hyn gan y Cyngor yn rhan o unrhyw adolygiad sefydliadol. Cedwir copïau o'r adolygiadau hyn gan Adnoddau Dynol. Os nad oes y fath adolygiad yn yr arfaeth, trafodir hyn ddwywaith y flwyddyn o leiaf neu ar gais Grŵp Monitro'r Gymraeg.

- 3.2.3 Wrth benodi i swyddi lle yr ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, rhaid profi lefel ieithyddol yr ymgeiswyr yn y ddwy iaith wrth gyfweld â hwy a hynny o ran ysgrifennu a siarad fel sy'n briodol i'r swydd.
- 3.2.4 Pan ddymunwn recriwtio siaradwyr Cymraeg, gwnawn hyn yn glir drwy osod hysbysebion am swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol mewn papurau newyddion Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Hysbysebir pob swydd.
- 3.2.5 Adolygwn ac aseswn bob hyn a hyn sgiliau ieithyddol y staff ac adrodd am y canfyddiadau'n flynyddol. Portha hyn Gynllun Dysgu a Datblygu'r Staff.

### **3.3 Ymroddiadau fîm**

- 3.3.1 Wrth benodi, asesir anghenion y Cyngor am staff Cymraeg gan y staff sy'n gyfrifol am recriwtio. Cynhwysir y rhain hefyd yn y camau a amlinellir yn 3.2.1 a 3.2.2 uchod.
- 3.3.2 Bydd pob mesur yn ein Polisi yn gymwys i bob un o'n swyddfeydd a phob maes o'n gwaith.
- 3.3.3 Cynhwysir yn y Polisi drefniadau ar gyfer swyddfeydd Cymru lle na allai pob rhan o'n gwasanaeth fod ar gael ar unwaith. Cynnwys y trefniadau hyn alluogi staff Cymraeg o un swyddfa i helpu staff mewn swyddfa arall pan gyfyd yr angen a chyflogi cyfieithwyr proffesiynol allanol.
- 3.3.4 Bydd gan Brif Weithredwr y Cyngor y prif gyfrifoldeb am weithredu a monitro'r Polisi a'r Safonau.
- 3.3.5 Sefydlodd y Cyngor Grŵp Monitro'r Gymraeg sy'n monitro'r Polisi'n rheolaidd ac sy'n sicrhau y gweithredir y Polisi mewn modd cynhwysfawr a chyson ar draws y sefydliad gan ddiwallu'r Safonau. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am drafod a llunio argymhellion am bob mater sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor a thynnu sylw'r Cyngor at faterion pan fo angen. Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn flynyddol a bydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan a'n mewnwyd. Anfonir copïau o'r adroddiad hefyd at Gomisiynydd y Gymraeg.
- 3.3.6 Bydd pob fîm yn y Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r Polisi yn ei faes cyfrifoldeb ei hun.
- 3.3.7 Bydd y rhai sy'n gyfrifol am gaffael systemau cyfrifiadurol ac am gynllunio cyfrifiadurol yn rhoi ystyriaeth lawn i'n hangen i weithredu'r ymrwymedigaethau yn ein Polisi a diwallu'r Safonau. Os nad oes modd addasu'n systemau cyfrifiadurol cyfredol i hwyluso'r Safonau'n llawn, adolyga'n fîm TGCh y systemau hynny yng

ngoleuni'r Safonau a chynnig gamau i wella perfformiad y systemau hynny o ran y Gymraeg.

### **3.4 Cyflwyno, hyfforddi a datblygu staff**

- 3.4.1 Wrth gael eu penodi, caiff aelodau newydd o'r staff gopi o'r Polisi a gofynion cydymffurfio â'r Safonau a briffiad am eu gweithredu a ymgorfforir yng ngweithdrefn sefydlu'r staff. Darparwn hefyd i'r staff friffiad am agweddau hanesyddol a diwylliannol ar y Gymraeg ar dudalen y Gymraeg ar Hwb.
- 3.4.2 Caiff pob aelod o'r staff gopi o Bolisi Hyrwyddo a Hwyluso Cymraeg y Cyngor a gofynion cydymffurfio â'r Safonau. Cynhelir cyfarfodydd achlysurol i'r staff, yn adrannau neu'n swyddfeydd, i friffio pob aelod o'r staff am ofynion y Safonau ac adolygu sut y gweithredwn hwy.
- 3.4.3 Gwahoddir sylwadau gan aelodau o'r Cyngor a'r staff am ansawdd y deunydd Cymraeg i'w hanfon at ein Cyfieithydd mewnol, ein Pennaeth Cyfathrebu neu aelod o'n Grŵp Monitro'r Gymraeg.
- 3.4.4 Anogwn ein staff i ddysgu'r Gymraeg neu wella eu gallu wrth siarad yr iaith. Cefnoga'r Cyngor y staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg drwy eu gadael yn rhydd o'u gwaith am gyfnodau rhesymol i fynd ar gyrsiau iaith proffesiynol a thrwy dalu ffioedd dysgu sy'n deillio o'r cyrsiau hynny. Dangosydd perfformiad allweddol yw bod y Cyngor yn cynyddu canran y staff di-Gymraeg sydd wedi'u cofrestru'n ddysgwyr. Cynhwysir yr ystyriaeth hon yn ein Cynllun Dysgu a Datblygu.
- 3.4.5 Hefyd trefnwn grwpiau cefnogi mewnol o siaradwyr Cymraeg rhugl i gynnal sesiynau grŵp i alluogi dysgwyr i wella eu Cymraeg.
- 3.4.6 Bydd gan bob aelod o'r staff grap digonol ar y Gymraeg i groesawu'r cyhoedd i gyfarfodydd, cyfarch pobl wrth ateb y ffôn ac ati. Cydlynar adran Adnoddau Dynol sesiynau hyfforddi a gynnwys ynganu i'r holl staff boed yn ddysgwyr neu beidio.
- 3.4.7 Aseswn ein hangen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn barhaus.
- 3.4.8 Pan welir bod angen cael hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso gweithredu'r Safonau, darperir yr hyfforddiant hwnnw naill ai'n fewnol neu gan asiantaeth allanol, ar draul y Cyngor a dilynir yr hyfforddiant yn ystod oriau gwaith neu, yn achos dosbarthiadau nos ac yn y blaen, ystyrir yr oriau yno'n oriau gwaith.

### 3.5 Cyfieithu

- 3.5.1 Down â phob dogfen i'w chyfieithu at sylw ein Cyfieithydd mewnol. Bydd y Cyfieithydd yn naill ai cyfieithu'n ysgrifenedig y ddogfen neu ofyn i gyfieithydd allanol ei wneud gan ddibynnu ar hyd y gwaith a'i frys.
- 3.5.2 Bydd ein staff yn trafod gyda'r Pennaeth Cyfathrebu a/neu'r Cyfieithydd cyn rhoi i'r cyhoedd ddogfennau dwyieithog sydd newydd eu creu.
- 3.5.3 Cynnwys y Cyngor a'i staff elfen o amser cyfieithu yn eu hamserlenni gwaith wrth weithio ar ddogfennau a gyfieithir.
- 3.5.4 Dibynna'r Cyngor ar y Cyfieithydd mewnol i ddarparu cyfieithu ysgrifenedig mewnol a rheoli anfon gwaith allan at gyfieithwyr allanol pan fo raid.
- 3.5.5 Pan fo angen defnyddio gwasanaethau cyfieithu allanol, sicrhau'n Cyfieithydd mewnol fod y fath gyfieithwyr wedi'u cymhwyso'n briodol a gallant ddarparu gwasanaeth o safon. Bydd y Cyfieithydd hefyd yn prawf ddarllen a safoni eu gwaith. Defnyddia'r meini prawf canlynol wrth asesu'r gwasanaethau a gynigir:
- ansawdd y gwaith
  - bod yn gyfarwydd â phwnc y testun a'r eirfa dechnegol a ddefnyddiwn
  - pris cystadleuol
  - gwarantu dychwelyd gwaith yn brydlon
  - y defnydd o TGCh i gyflawni gwasanaeth cyflym ac effeithlon
  - rhaid sicrhau cyfrinachedd
  - bod ganddynt yr indemniad priodol

## 4 Gwasanaethau a ddarperir gan eraill

### 4.1 Gweithio gyda chleientiaid

- 4.1.1 Sicrhawn y bydd pob polisi a menter newydd yn hyrwyddo a datblygu defnydd y Gymraeg ac y gweithredant yr egwyddor o gyfartaledd lle bynnag y bo'n berthnasol.
- 4.1.2 Sicrhawn fod polisïau a mentrau newydd yn gyson â Pholisï'r Gymraeg ac na thanseiliant ofynion y Safonau.
- 4.1.3 Rydym wedi'n hymrwymo i asesu canlyniadau ieithyddol pob polisi a menter newydd i gael gwybod pa effaith y maent yn debygol o'i chael ar ddefnydd y Gymraeg. Derbyn y Cyngor y gall cyfrwng ieithyddol cyfleoedd gael effaith uniongyrchol ar ymgyfranogi.
- 4.1.4 Sicrhawn fod staff ac ymgynghorwyr sy'n llunio polisïau a mentrau yn ymwybodol o Bolisï'r Gymraeg a gofynion y Safonau ac yn eu parchu.
- 4.1.5 Symudwn yn gynyddol at gael perthynas fwy cydweithiol gyda Phortffolio Celfyddydol Cymru. Disgwyliwn i'r sefydliadau yn y Portffolio barchu ac adlewyrchu'r egwyddorion y ceisiwn eu hyrwyddo drwy Bolisï'r Gymraeg. Disgwyliwn i'r holl Portffolio fabwysiadu ffordd ragweithiol o fynd ati yn y maes hwn. Rhown gefnogaeth ac anogaeth i sefydliadau sy'n ceisio gwella eu hymarfer. Ond hefyd rydym yn barod i roi cosbau mewn achosion lle teimlwn fod sefydliad yn ymwrthod yn fwriadol â dilyn ffordd ymlaen sydd yn ein tyb ni yn briodol. Trafodwn y materion hyn gyda'r portffolio'n flynyddol. Defnyddiwn gytundebau ariannu a phrosesau adolygu i sicrhau bod y portffolio'n cydymffurfio â'n dyheadau.
- 4.1.6 Monitrwn yn flynyddol gynnydd y sefydliadau a ariannwn yn y meysydd o waith y cytunir yn eu cylch. Cofnodir y tueddiadau cyffredinol a nodwn yn yr asesiadau hyn ac fe'u cyflwynwn i'r Cyngor bob blwyddyn neu'n ôl yr angen.
- 4.1.7 Bydd amodau grant safonol priodol yn nodi'r gofynion ieithyddol lleiaf oddi wrth gleientiaid portffolio a rhai a gaiff arian prosiect gennym a chymerwn gamau priodol pe na chyflawnir y gofynion hyn.
- 4.1.8 Rhown i unigolion a sefydliadau fanylion cyswllt mentrau iaith gyda'r nod o rannu adnoddau ac arbenigedd.
- 4.1.9 Cydnabyddwn hawl sefydliadau Cymraeg a di-Gymraeg i drafod unrhyw agwedd ar ddarpariaeth gelfyddydol Gymraeg. Yn fwy na hynny cychwynnwn drafodaethau o'r fath mewn seminarau achlysurol a chyfarfodydd arbennig.

4.1.10 Ymroddwn i ddatblygu ein dyheadau iaith ein hunain drwy waith ein cleientiaid mewn ysbryd o oddefgarwch a chynwysoldeb oherwydd y cydnabyddwn hawl pobl i archwilio diwylliant a chreadigrwydd yn eu dewis iaith.

4.1.11 Gyda'r arian sydd ar gael drwom, arddangoswn ein hymrwymiad i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i waith sy'n amrywiol o ran diwylliant ac adlewyrcha targedau sut y crëwn ragor o gyfleoedd gwell yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## **4.2 Gweithio â sefydliadau partner**

4.2.1 Wrth wahodd tendrau ar gyfer y fath gontractau, sonnir yn benodol yn nogfennaeth y tendr am y manylion ieithyddol a chynhwysir trefniadau monitro arferol y fath gontractau adroddiadau perfformio rheolaidd.

4.2.2 Os cawn dendr yn Gymraeg a phenderfynwn gyfweld â'r tendrwr, os dymuna'r tendrwr hwnnw ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, gall ei wneud a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

4.2.3 Wrth wahodd tendrau ar gyfer y fath gontractau, sonnir yn benodol yn nogfennaeth y tendr am y manylion ieithyddol a chynhwysir trefniadau monitro arferol y fath gontractau adroddiadau perfformio rheolaidd.

4.2.4 Wrth wahodd tendrau ar gyfer y fath gontractau, sonnir yn benodol yn nogfennaeth y tendr am y manylion ieithyddol a chynhwysir trefniadau monitro arferol y fath gontractau adroddiadau perfformio rheolaidd.

4.2.5 Cefnogwn ddatblygiadau Cymraeg cyrff cyhoeddus eraill a manteisio ar bob cyfle i hybu a datblygu defnydd yr iaith ymhlith y sefydliadau eraill y cawn gysylltiad â hwy, yng Nghymru a'r tu allan.

4.2.6 Disgwylir i sefydliadau partner sy'n darparu gwasanaethau, cefnogaeth neu arian i sefydliadau neu unigolion Cymru ddarparu deunydd Cymraeg a thalu amdano. Cynorthwya'r Cyngor y fath bartneriaid i gysylltu â sefydliadau arbenigol, priodol yng Nghymru.

4.2.7 Anogwn sefydliadau nad yw Safonau'r Gymraeg yn gymwys iddynt i weithredu yn ôl ysbryd y Safonau. Gwneir hyn drwy wahodd sefydliadau yn eu ceisiadau i fynd i'r afael â sut yr adlewyrchant natur ddwyieithog y gymuned y gweithiant ynddi a'u cynulleidfaoedd a dargedant.

### **4.3 Grantiau a chontractau**

- 4.3.1 Cyhoedda canllawiau ar gyfer ein cynlluniau grant ofynion Cymraeg yn feysydd o flaenoriaeth ar gyfer arian y Loteri a Phortffolio Celfyddydol Cymru.
- 4.3.2 Pan gytuna'r Cyngor ar gontractau ffurfiol â thrydydd partïon o ran darparu gwasanaethau i gyhoedd Cymru, sicrha fod y fath gontractau'n gyson â thelerau Polisi'r Gymraeg a gofynion y Safonau. Yn fwy na hynny, argymhellwn i bob parti ddarllen y canllawiau a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 5 Monitro ac adrodd

### 5.1 Monitro

- 5.1.1 Gofynnir i Grŵp Monitro'r Gymraeg reoli o ddydd i ddydd weithredu Polisi'r Gymraeg a'r Safonau. Amlinellir ymrwymiad pob tîm yn y Cyngor yn adran 3 uchod.
- 5.1.2 Cynnwys Grŵp Monitro'r Gymraeg gynrychiolwyr sy'n gweithio ar draws y Cyngor (gan gynnwys yr Uwch Tîm Rheoli) ac mae dan gadeiryddiaeth aelod o'r Cyngor. Ymgwyferfydd yn chwarterol ac edrydd i'r Cyngor a gwna argymhellion iddo drwy'r Uwch Tîm Rheoli.
- 5.1.3 Mae gan y grŵp yr hawl i fynd yn syth at y Cyngor os cred fod aelodau o'r staff yn gweithredu mewn modd a dyr unrhyw gymal neu ysbryd Polisi'r Gymraeg neu sy'n anghydnaws â gofynion y Safonau.
- 5.1.4 Mesurwn ein darpariaeth Gymraeg yn erbyn nifer o ddangosyddion a ategir gan ddata mesurol am y canlynol:
- Gwasanaethau a contractir – canran o sampl o gydymffurfedd wedi'i fonitro â gofynion ein Cynlluniau Gweithredu Cymraeg blynyddol.
  - Gwasanaeth wyneb yn wyneb – nifer a chanran y swyddi a nodir yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd â siaradwyr Cymraeg yn eu gwneud.
  - Adnoddau Dynol a Sgiliau – nifer a chanran y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) a gafodd hyfforddiant yn y Gymraeg a arweiniodd at gael cymhwyster penodol. Hefyd, nifer a chanran y staff a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
  - Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – nifer a chanran y staff sy'n siarad Cymraeg gyda dadansoddiad yn ôl adran, gradd a swyddfa.
  - Safon y gwasanaeth - nifer y cwynion a ddaw i law yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.
  - Ein cynnydd sefydliadol wrth arddangos ein cydymffurfedd llawn â'r Safonau fel y'u disgrifir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol.

### 5.2 Adrodd

- 5.2.1 Rhydd Grŵp Monitro'r Gymraeg i'r Cyngor adroddiad blynyddol (am y gweithgarwch yn y flwyddyn ariannol) am roi ar waith y Cynllun Gweithredu Blynyddol. Cynnwys yr adroddiad hwn ystod lawn ein hymdrechion a rhybuddia'r Cyngor am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.



5.2.2 Anfonwn gopi o'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu at Gomisiynydd y Gymraeg, fel arfer erbyn y Medi canlynol (yn ddarostyngedig i ofynion adrodd Swyddfa Ystadegau Gwladol).

### **5.3 Ymwybyddiaeth o'r polisi a'r cynllun gweithredu**

5.3.1 Rhoddwn gyhoeddusrwydd i Bolisi a Chynllun Gweithredu'r Gymraeg fel a ganlyn:

- cyhoeddir hwy ar Hwb, ein mewnrwyd staff
- cyhoeddir hwy ar wefan y Cyngor ([www.celf.cymru](http://www.celf.cymru)) sydd ar gael i artistiaid, sefydliadau celfyddydol, awdurdodau lleol a'r cyhoedd
- cynhwysir astudiaethau achos am ymarfer da ar ein gwefan
- cyhoeddir datganiadau am astudiaethau achos am ymarfer da i'r wasg a'r cyfryngau

5.3.2 Dylid anfon unrhyw ymholiadau pellach am Bolisi a Safonau'r Gymraeg at Gadeirydd Grŵp Monitro'r Gymraeg.